

Taflen Ffeithiau

Perthynas yn dod i ben

Coed Pella,
Conway Road,
Bae Colwyn.
LL29 7AZ
0300 1240040



Rwyf wedi gwahanu gyda'm partner, beth yw fy hawliau tai?

Os ydi'r eiddo yn eich enw chi (ar y cyd neu'n unigol), rydych yn gyfrifol am dalu'r rhent – hyd yn oed os ydych chi'n gadael. Efallai y bydd gennych yr hawl i aros yn y cartref.

Dyma eich hawliau tai:

Cyd Berchnogion / Tenantiaid

- Mae gan y ddau ohonoch hawliau cyfartal i aros yn y cartref.

Perchnogion / Tenantiaid Unigol

- Mae gan y sawl a enwyd ar y denantiaeth neu gweithredoedd y morgais yr hawl i aros yn y cartref.
- Os ydych chi'n briod neu'n bartner sifil i'r perchennog / tenant bydd gennych Hawliau Cartref – mae hyn yn rhoi hawliau tebyg i gyd-berchennog / cyd-denant (gweler rhagor o wybodaeth isod).
- Os ydych chi'n cydfyw gyda'r perchennog / tenant a'ch bod wedi gwneud cyfraniad ariannol i'r cartref (e.e. taliadau rhent neu forgois) efallai y gallwch aros yn yr eiddo, ar yr amod eich bod yn gallu tystiolaethu fod gennych fuddiant llesionol.

Beth yw Hawliau Cartref?

- Mae Hawliau Cartref yn eich caniatáu i fyw mewn eiddo fel pe baech yn berchennog / tenant.
- Maent hefyd yn rhoi'r hawl i chi dalu'r rhent neu'r morgais.
- Os ydych chi'n cofrestru eich Hawliau Cartref gallwch atal eich partner rhag terfynu'r denantiaeth / gwerthu'r cartref. Byddwch hefyd yn derbyn hysbysiad ynglŷn ag unrhyw achosion llys ynglŷn â'r eiddo.
- Mae Hawliau Cartref yn berthnasol os mai chi yw perchennog / tenant yr eiddo (ar y cyd neu'n unigol), neu os ydych yn briod neu'n bartner sifil i'r perchennog / tenant.
- Mae Hawliau Cartref yn dod i ben ar ôl ysgariad neu ddiddymu partneriaeth sifil, er y gall y llysoedd eu hymestyn mewn rhai amgylchiadau.

Beth yw Gorchymyn Meddiant?

- Gall Gorchymynion Meddiant eich galluogi i aros mewn eiddo, neu ddychwelyd i eiddo yr ydych wedi'i adael. Gallant atal eich cyn-bartner rhag dod i mewn i'r eiddo neu'r gymdogaeth.
- Gall Gorchymynion Meddiant wrthwneud unrhyw Hawliau Cartref sydd gan eich cyn-bartner.
- Bydd angen i chi wneud cais i'r Llys Sirol neu Lys yr Ynadon drwy lenwi ffurflen gais - dylech geisio cyngor cyfreithiol gan Gyfreithiwr Teulu, sy'n ymwneud â Chyfraith Teulu, i gael cymorth gyda hyn.

Sut allwch chi helpu?

Os oes gennych hawl i aros yn y cartref yna efallai eich bod yn dymuno arfer yr hawl hwn. Fodd bynnag, os ydych chi'n dymuno canfod llety amgen bydd eich Swyddog Atal Digartrefedd yn rhoi cyngor i chi ond ni fydd ganddynt ddyletswydd i ganfod llety i chi.



Os nad oes gennych hawl i aros yn yr eiddo, efallai y bydd gan eich Swyddog Atal Digartrefedd ddyletswydd i ddarparu llety i chi yn dibynnu ar eich amgylchiadau personol – bydd hyn yn cael ei drafod mewn mwy o fanylder yn ystod eich asesiad.

A oes unrhyw wasanaethau eraill sy'n gallu rhoi cyngor a chefnogaeth i mi?

Oes – Gall ein hasiantaethau partner gynnig ystod o gyngor a chefnogaeth i chi.

Shelter

Cymru

☎ 01792 469400

💻 www.sheltercymru.org.uk

📍 Uned 5, Adeilad yr Orsaf, Stryd Bodfor, Y Rhyl LL18 1AT



☎ 0344 477 2020

💻 www.citizensadvice.org.uk

📍 Eryl Wen, Eryl Place, Llandudno, Conwy LL30 2TX



Dewis Cymru yw'r lle i gael gwybodaeth am les yng Nghymru.

Os hoffech wybodaeth all eich helpu i feddwl am yr hyn sy'n bwysig i chi, ynghyd â gwybodaeth am sefydliadau a gwasanaethau lleol a all helpu, gallwch fynd i wefan Dewis Cymru ar www.dewis.wales.

Gall y wefan eich cynorthwyo i gael mynediad at wasanaethau cefnogaeth lleol a chanfod gwybodaeth a chyngor. Mae'n bwynt mynediad sengl, clir a dibynadwy.

This document is also available in English.

Fersywn 2 Ionawr 2020

